Hawdd ei Ddeall

# Beth ydy Senedd Ieuenctid Cymru?

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Senedd Ieuenctid Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Beth ydy Senedd Ieuenctid Cymru?**'.

**Medi 2021**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas** beiddgar yn anodd eu deall. Fe'u hesboniwyd mewn blwch islaw'r gair.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Senedd Ieuenctid Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:


**Cyfeiriad:** Senedd Ieuenctid Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

**Ffôn:** 0300 200 6565

**E-bost:** helo@seneddieuenctid.cymru


Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys


Tudalen

Am Senedd Ieuenctid Cymru....4

Dweud eich dweud....6

Pleidleisio i'r person  cywir....7

Am eich etholaeth....9

Sut rydw i'n gallu pleidleisio....11

Sut mae fy mhleidlais yn helpu....12

Beth sydd yn digwydd nesaf....13

Darganfod rhagor....14

# Am Senedd Ieuenctid Cymru





Mae'r ddogfen yma am Senedd Ieuenctid Cymru



Ni ydy **Senedd Ieuenctid Cymru**. Mae Senedd Ieuenctid Cymru yn grŵp o 60 o bobl ifanc rhwng 11 ac 18 oed. Rydyn ni'n sefyll i fyny dros farn plant a phobl ifanc ar draws Cymru.




Mae gan Senedd Ieuenctid Cymru 60 o aelodau. Mae hyn yr un fath â Senedd Cymru.





Rydych chi'n gallu pleidleisio dros 40 o aelodau o'r Senedd Ieuenctid yn yr **etholiad** nesaf ym mis Tachwedd 2021.

**Etholiad** ydy pan mae pobl yn pleidleisio dros rhywun maen nhw eisiau i'w helpu nhw, gwrando arnyn nhw a gweithio drostyn nhw mewn gwleidyddiaeth.



Fe fydd cyrff partner yn pleidleisio am yr 20 aelod arall. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl o wahanol gefndiroedd yn y Senedd Ieuenctid.




Mae gan y 60 aelod yr un rôl a’r un pethau dylen nhw eu gwneud.



Os ydych chi rhwng 11 ac 18 oed ac yn byw neu yn mynd i’r ysgol neu goleg yng Nghymru, rydych chi’n gallu pleidleisio yn etholiad y Senedd Ieuenctid.




Rydych chi’n gallu rhoi eich enw ymlaen hefyd i fod yn aelod!

# Dweud eich dweud

**Fe fydd aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn cymryd rhan am 2 flynedd**



Fe fydd y 60 aelod yn gweithio gyda'i gilydd am 2 flynedd i siarad am faterion sydd yn bwysig i bobl ifanc yng Nghymru.

**Fe fydd Senedd Ieuenctid Cymru yn:**



- Helpu pobl ifanc i wybod beth ydy eu hawliau, meddwl a siarad am faterion pwysig.





- Gwrando ar bobl ifanc a deall beth sydd yn bwysig iddyn nhw a rhannu hyn yn y senedd.



- Gweithio gyda'r bobl sydd yn gwneud penderfyniadau i siarad am faterion a gwneud newidiadau er gwell.

# Pleidleisio i'r person cywir

**Rydych chi'n gallu pleidleisio i'r person fydd yn eich helpu chi ac yn gwrando arnoch chi a phobl eraill yn eich ardal**



Mae Cymru wedi ei rhannu yn 40 ardal, mae'r rhain yn cael eu galw yn **etholaethau**.




**Etholaeth** ydy'r ardal lle mae pobl yn byw ac yn pleidleisio dros bobl eraill i wrando arnyn nhw a sefyll i fyny dros beth maen nhw'n feddwl, yn y senedd.




Mae enw'r **etholaeth** lle rydych chi'n byw neu yn mynd i'r ysgol neu goleg ar y wefan yma: [seneddieuenctid.senedd.cymru/](seneddieuenctid.senedd.cymru/)



Yr **etholaeth** yma ydy eich rhan chi o Gymru.



Pan rydych chi'n pleidleisio rydych chi'n gallu dewis 1 person rydych chi eisiau iddyn nhw wrando arnoch chi a'ch helpu chi a phobl eraill yn eich ardal.



Fe fydd aelodau'r Senedd Ieuenctid yn gweithio gyda Senedd Cymru i siarad am faterion y mae pobl ifanc wedi dweud wrhyn nhw amdanyn nhw.

# Am eich etholaeth

## Pa un ydy eich etholaeth chi

Yr **etholaethau** yng **Ngogledd Cymru** ydy:

1. Ynys Môn
2. Arfon
3. Aberconwy
4. Gorllewin Clwyd
5. Dyffryn Clwyd
6. Delyn
7. Alyn a Glannau Dyfrdwy
8. Wrecsam
9. De Clwyd
10. Dwyfor Meirionnydd
11. Sir Drefaldwyn

Yr **etholaethau** yng **Nghanolbarth Cymru** ydy:

1. Ceredigion
2. Brycheiniog a Sir Faesyfed
3. Preseli Sir Benfro
4. Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
5. Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Yr **etholaethau** yn **Ne Orllewin Cymru** ydy:

1. Gŵyr
2. Gorllewin Abertawe
3. Dwyrain Abertawe
4. Castell-nedd
5. Aberafon
6. Ogwr
7. Pen-y-bont
8. Rhondda
9. Cwm Cynon
10. Pontypridd
11. Bro Morgannwg

Yr **etholaethau** yn **Ne Ddwyrain Cymru** ydy:


1. Gorllewin Caerdydd
2. Gogledd Caerdydd
3. Canol Caerdydd
4. De Caerdydd a Phenarth
5. Merthyr a Rhymni
6. Blaenau Gwent
7. Torfaen
8. Mynwy
9. Caerffili
10. Islwyn
11. Gorllewin Casnewydd
12. Dwyrain Casnewydd

# Sut rydw i'n gallu pleidleisio?



**Mae eich llais yn bwerus. Gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei glywed.**

Mae angen i chi gofrestru i allu pledleisio. Mae angen i chi roi eich cyfeiriad e-bost, dyddiad geni a'ch cod post.




Mae'r cod post yn gallu bod yn un eich cartref neu eich ysgol neu goleg. Fe fydd angen iddo fod yn yr **etholaeth** lle fyddwch chi'n pleidleisio.



Os ydych chi wedi cofrestru i bleidleisio yn **etholiad y Senedd Ieuenctid yn 2018**, fydd dim angen i chi **gofrestru eto.** Fe fyddwch chi'n cael e-bost yn dweud wrthych chi sut i bleidleisio.

Fe fydd pleidleisio yn agor ar **1 Tachwedd 2021**. Fe fydd yn cau am **12pm ar 22 Tachwedd 2021**.




**I bleidleisio, yr unig beth sydd angen i chi ei wneud ydy:**

- cofrestru i bleidleisio
- rhoi eich manylion
- edrych ar eich e-bost i gael eich cod pleidleisio
- pleidleisio

# Sut mae fy mhleidlais yn helpu

**Mae eich pleidlais yn bwysig felly meddyliwch yn ofalus amdano**



Fe fydd angen i chi ddewis pa berson rydych chi eisiau pleidleisio drostyn nhw. O **18 Hydref 2021**, rydych chi'n gallu darllen am bob person ar y wefan yma: [seneddieuenctid.senedd.cymru.](seneddieuenctid.senedd.cymru)



Mae angen i chi ddarllen am bob person a meddwl ydyn nhw'n poeni am y materion sydd yn bwysig i chi.



Fe fyddan nhw yn canolbwyntio ar faterion sydd yn effeithio ar eich bywyd bob dydd. Fel addysg, iechyd a'r amgylchedd.




Mae rhagor o wybodaeth am y materion mae Senedd Cymru yn canolbwyntio arnyn nhw yma: [seneddieuenctid.senedd.cymru/](seneddieuenctid.senedd.cymru/)



Y person ifanc sydd yn cael y nifer mwyaf o bleidleisiau fydd yn dod yn aelod o Senedd Ieuenctid Cymru dros eich etholaeth am 2 flynedd.

Unwaith y byddwch chi wedi pleidleisio, dydych chi ddim yn gallu newid eich meddwl.

# Beth sydd yn digwydd nesaf?



Dywedwch wrth bobl eich bod wedi pleidleisio yn Senedd Ieuenctid Cymru! Ar y cyfryngau cymdeithasol yn defnyddio'r hashnod **#seneddieuenctidcymru**.

Mae gan Senedd Ieuenctid Cymru wahanol enwau ar y cyfryngau cymdeithasol.



Ar Instagram a Facebook maen nhw yn @SeneddIeuenctidCymru.

Ar Twitter maen nhw yn @Seneddieuenctid.



Fe fyddwch chi'n cael gwybod pwy sydd wedi eu hethol i fod yn y Senedd Ieuenctid ym mis **Rhagfyr 2021**.

# Darganfod rhagor




Ar ôl yr etholiad fe fydd y 60 aelod o Senedd Ieuenctid Cymru yn penderfynu pa faterion y byddan nhw yn cnaolbwyntio arnyn nhw am y 2 flynedd nesaf.



Fe fyddan nhw hefyd yn meddwl am sut i weithio gyda llawer o bobl ifanc ar draws Cymru.



I gael yr wybodaeth ddiweddaraf rydych chi'n gallu dilyn Senedd Ieuenctid Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol.




Rydych chi hefyd yn gallu ymuno i dderbyn y newyddlen ar y wefan yma: [seneddieuenctid.senedd.cymru](https://seneddieuenctid.senedd.cymru).